WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o’r prosiect ‘Ymyrraeth Gynnar ac Atal i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd’ – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1248A2019-20

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, neu o ran unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a ddarparodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Gwilym Bury a Charlotte Owen dan arweiniad Huw Rees.

# Cynnwys

Mewn hinsawdd ariannol heriol, mae'r Cyngor yn cymryd camau addawol i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i weithredu ei brosiect Ymyrraeth Gynnar ac Atal i Blant, Pobl ifanc a Theuluoedd, ond mae angen iddo ystyried ei gamau nesaf i ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliad 7

Mae'r Cyngor yn cymryd camau i gydbwyso'r anghenion presennol a'r anghenion hirdymor trwy ganolbwyntio ar ataliaeth hirdymor ond mae angen iddo ystyried cynaladwyedd ariannol y gwaith 7

Mae'r Cyngor yn deall anghenion teuluoedd lleol ac y mae wedi ystyried sut gall canolfannau teuluoedd fynd i'r afael â'r anghenion hynny ac atal problemau rhag gwaethygu, ond dylai ystyried ymhellach sut y gellid defnyddio rhaglenni ataliol yn fwy eang ar draws y Cyngor 8

Mae'r Cyngor wedi mynd ati i gyflawni'r gwaith mewn modd integredig ac amlasiantaeth ac y mae wedi ystyried sut y bydd ei bartneriaid, yn ogystal â'i amcanion llesiant ei hun, yn elwa o'r canlyniadau, ond mae cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei ymagwedd 9

Mae gweithio ar y cyd yn rhan allweddol o ddull y Cyngor o atal ac ymyrryd yn gynnar ac y mae wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ar y gwaith o ddylunio a darparu'r canolfannau teuluoedd, ond gellid cryfhau cysylltiadau'r prosiect â chynghorau cyfagos 10

Mae'r Cyngor yn cynnwys ei randdeiliaid yn y gwaith o ddylunio a darparu ei ganolfannauteuluoedd mewn modd effeithiol ac mae'n ymatebol i anghenion lleol, ond mae'n cydnabod bod angen rhagor o waith i gynnwys rhanddeiliaid a dysgu oddi wrth ei ymagwedd hyd yma 11

Rhan Dau: Ymateb a chamau gweithredu'r Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y gwnaethpwyd yr archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ddyletswydd statudol i archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. bennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w bodloni.

Diffiniad y Ddeddf o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad y Cynulliad. Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd ag archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf, i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad **Myfyrio ar Flwyddyn Un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**. Daeth i'r casgliad fod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, gwnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod
2017-18. Gwnaethom weithio'n agos hefyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Fel rhan o'r gwaith rhagarweiniol yn y flwyddyn gyntaf, ystyriwyd sut y bu i gyrff cyhoeddus osod eu hamcanion llesiant, felly prif ganolbwynt y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaed gennym rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ein harchwiliad o Gynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer 2017-22, sy'n cynnwys canlyniad dinesydd fod pobl yng Nghonwy'n iachus ac yn heini. Bwriad y canlyniad yw lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus trwy hyrwyddo opsiynau iachus a ffyrdd iachus o fyw a darparu mynediad hawdd a didrafferth i'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl trwy gryfhau gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

9 Ym mis Ionawr 2019, gwnaethom ofyn i'r Cyngor ymateb i'n canfyddiadau, fel y byddai modd eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, a chawsom ei gynllun gweithredu mewn ymateb ym mis Mawrth 2019.

## Yr hyn a archwiliwyd

10 Archwiliwyd gennym i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Adolygom waith y Cyngor â'i bartneriaid i ganolbwyntio ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a darparu cymorth i rieni trwy ddulliau amlasiantaeth ac i ddatblygu modelau newydd i hybu iechyd a llesiant fel y bydd pobl o bob oedran yn llai dibynnol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

11 Un o'r ffyrdd mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni'r camau hyn a chyfrannu at y canlyniad dinesydd yw trwy ei brosiect Ymyrraeth Gynnar ac Atal i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Mae'r Cyngor wedi datblygu model canolfannau teuluoedd i ddarparu ei waith atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae'r model yn galluogi teuluoedd i gael cymorth yn y gymuned gan dimau amlasiantaeth. Adolygom y prosesau mae'r Cyngor yn eu dilyn i ddatblygu'r model canolfannau teuluoedd a'i roi ar waith. Galluogodd hyn inni asesu i ba raddau mae'r Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy trwy'r prosiect Ymyrraeth Gynnar ac Atal i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (‘y cam’) er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant.

12 Er mwyn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y ‘ffyrdd canlynol o weithio’:

### Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae'r tabl isod yn gosod y ‘pum ffordd o weithio’ fel y'u diffinnir yn nogfen **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr hanfodion**[1] gan Lywodraeth Cymru.

| Y pum ffordd o weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a’r angen i ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithredu ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) a allai helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |

[1] Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr hanfodion** (2015)

| Y pum ffordd o weithio |
| --- |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

13 Canfu ein harchwiliad y canlynol: '**Mewn hinsawdd ariannol heriol, mae'r Cyngor yn cymryd camau addawol i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i weithredu ei brosiect Ymyrraeth Gynnar ac Atal i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, ond mae angen iddo ystyried ei gamau nesaf i ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**'.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliad

### Mae'r Cyngor yn cymryd camau i gydbwyso'r anghenion presennol a'r anghenion hirdymor trwy ganolbwyntio ar ataliaeth hirdymor ond mae angen iddo ystyried cynaladwyedd ariannol y gwaith

#### Yr hyn yr edrychom amdano

14 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio amserlen briodol;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

15 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr ‘hirdymor’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuwyd

16 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae'r model canolfannau teuluoedd yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion byrdymor teuluoedd wrth geisio torri cylchoedd rhwng y cenedlaethau hefyd a lleihau'r galw hirdymor am ymyrraeth statudol.
- Mae'r Cyngor yn casglu data ansoddol a meintiol i fesur effeithiau byrdymor a hirdymor y canolfannau teuluoedd ar anghenion lleol.
- Mae'r Cyngor yn manteisio ar gyllid grant a chyllid gan ffrydiau ariannu partneriaid i ariannu'r canolfannau ac y mae wedi ymrwymo i barhau â’r gwaith o gyflwyno’r prosiect ledled y sir.

17 Nodwyd y cyfleoedd canlynol:

- Wrth adrodd canlyniadau, gallai'r Cyngor ddangos mewn modd mwy cynhwysfawr y manteision ariannol hirdymor y mae'r prosiect yn eu cyflawni trwy gyfrifo'r costau a osgowyd gan waith atal ac ymyrryd yn gynnar.
- I liniaru risgiau ariannol posibl ynghylch cynaladwyedd hirdymor y gwaith, yn enwedig o ystyried y ddibyniaeth ar gyllid grant, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall sicrhau gwydnwch hirdymor y model.

[2] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor yn deall anghenion teuluoedd lleol ac y mae wedi ystyried sut gall canolfannau teuluoedd fynd i'r afael â'r anghenion hynny ac atal problemau rhag gwaethygu, ond dylai ystyried ymhellach sut y gellid defnyddio rhaglenni ataliol yn fwy eang ar draws y Cyngor

### Yr hyn yr edrychom amdano

18 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o'r math o broblem a natur y broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y cyflawnir buddion ataliol; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol mae'r cam yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

19 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuwyd

20 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Roedd gan y swyddogion a'r cynghorwyr y cawsom drafodaeth â nhw ddealltwriaeth dda o'r angen i ddatblygu teuluoedd mwy gwydn, gwarchod plant rhag profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a lleihau'r angen am ymyrraeth statudol.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda sefydliadau partner i greu timau amlasiantaeth i gynorthwyo teuluoedd allan yn y gymuned.
- Mae canolfannau teuluoedd yn galluogi pob teulu i gael cymorth yn llawer cynt ac mewn lleoliad niwtral.
- Bwriad y prosiect yw creu amodau lle na fydd problemau'n codi trwy roi mynediad i deuluoedd i gymorth a gweithgareddau sy'n helpu i ddatblygu gwydnwch.
- Mae'r Cyngor yn casglu data ansoddol a meintiol i fesur sut mae'r prosiect yn cynorthwyo teuluoedd ac yn atal ymyriadau statudol gan wasanaethau. Mae'r data hwn hefyd yn helpu'r Cyngor i ddeall anghenion lleol ac yn llywio pa wasanaethau ataliol sydd ar gael.

21 Nodwyd y cyfleoedd canlynol gennym:

- O ystyried manteision trawsbynciol gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall ganolbwyntio cyllidebau a buddsoddiadau yn y dyfodol ar raglenni ataliol.
- Dylai'r Cyngor ystyried modelu ymhellach effaith gwaith atal o ran costau.

[3] Gweler Atodiad 1

- Dylai'r Cyngor ystyried ymhellach sut y gall ddysgu o ddull y prosiect o atal ac ymyrryd yn gynnar a symud ei adnoddau at waith atal ar draws y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

## Mae'r Cyngor wedi mynd ati i ddarparu'r gwaith mewn modd integredig ac amlasiantaeth ac y mae wedi ystyried sut y bydd ei bartneriaid, yn ogystal â'i amcanion llesiant ei hun, yn elwa o'r canlyniadau, ond mae cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei ymagwedd

### Yr hyn yr edrychom amdano

22 Edrychom am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

23 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuwyd

24 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gallai'r prosiect gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.
- Mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae'r prosiect yn cyfrannu at ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid i ddatblygu'r prosiect ac y mae wedi ystyried sut mae'n cyfrannu at amcanion partneriaid.

25 Nodwyd y cyfleoedd canlynol gennym:

- Dylai'r Cyngor ystyried sut i ddatblygu dysgu ynglŷn â'r manteision a heriau gweithio mewn ffordd fwy integredig a sut y gall gwreiddio'r ymagwedd hon yn gorfforaethol.
- Gellid cryfhau'r trefniadau llywodraethu. Nid yw'n glir sut y byddid yn tynnu sylw at hyn pe bai'r prosiect yn methu.
- Er ei fod yn gweithio i gyrraedd teuluoedd sy'n agored iawn i niwed, nid yw'n glir sut bydd y Cyngor yn barnu llwyddiant o ran nifer y bobl hyn sy'n manteisio ar y gwasanaeth.

[4] Gweler Atodiad 1

## Mae gweithio ar y cyd yn rhan allweddol o ddull y Cyngor o atal ac ymyrryd yn gynnar ac y mae wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ar y gwaith o ddylunio a darparu'r canolfannau teuluoedd, ond gellid cryfhau cysylltiadau'r prosiect â chynghorau cyfagos

### Yr hyn yr edrychom amdano

26 Edrychom am dystiolaeth fod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu i helpu corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithio yn ei helpu ef neu ei randdeiliaid i gyflawni eu hamcanion llesiant.

27 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cydweithio’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuwyd

28 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid mewnol ac allanol fel bod modd i deuluoedd gael y cymorth sydd ei angen arnynt ni waeth pa sefydliad neu wasanaeth sy'n gyfrifol am ei ddarparu.
- Mae'r data ansoddol a gasglwyd gan y Cyngor oddi wrth ddefnyddwyr a staff canolfannau teuluoedd yn awgrymu bod y dull hwn o ddarparu gwasanaethau yn dileu'r rhwystrau rhag mynediad a'i fod yn allweddol i lwyddiant y prosiect.
- Siaradodd partneriaid yn gadarnhaol am y ffordd y mae'r Cyngor wedi eu cynnwys yn y gwaith o ddylunio a darparu'r prosiect mewn modd ystyrlon.

29 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Dylai'r Cyngor barhau i werthuso ei ddull o gydweithio a dysgu gwersi ohono, a dylai ystyried p'un a yw'n rhannu perchnogaeth ar y prosiect a'i berfformiad â phartneriaid ai peidio.
- Gellid cryfhau cysylltiadau'r prosiect â Gwynedd a Sir Ddinbych ymhellach.

[5] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor yn cynnwys ei randdeiliaid yn y gwaith o ddylunio a darparu'r canolfannau teuluoedd mewn modd effeithiol ac mae'n ymatebol i anghenion lleol, ond mae'n cydnabod bod angen rhagor o waith i gynnwys rhanddeiliaid a dysgu oddi wrth ei ymagwedd hyd yma

### Yr hyn yr edrychom amdano

30 Edrychom am dystiolaeth fod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen iddo ei gynnwys yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys y rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r cyfranogiad i lywio'r ffordd y caiff y cam hwn ei ddatblygu a'i gyflawni; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gyfranogi.

31 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cyfranogiad’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuwyd

32 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â theuluoedd i nodi anghenion lleol a'u cynnwys yn y gwaith o ddylunio a darparu'r prosiect. Er enghraifft, mae teuluoedd wedi helpu i lywio'r canlynol:
  - y cysyniad o’r ganolfan deuluoedd;
  - lleoliad y canolfannau a'r gwasanaethau a gynigir ganddynt; a'r
  - ffordd y mae'r canolfannau'n mesur canlyniadau.
- Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddull o gynnwys mewn modd rhagweithiol ac mae'n defnyddio hyn i lywio ei ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r Cyngor bellach:
  - yn datblygu ymgynghoriad parhaus â phlant a phobl ifanc; ac
  - yn creu grwpiau cynghori â rhieni sy'n benodol i'r gymuned.

33 Nodwyd y cyfleoedd canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor yn cymryd camau i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd ond mae angen gwaith pellach i gynnwys rhai o'r grwpiau mwy heriol.
- Dylai'r Cyngor barhau i ddefnyddio'r hyn a ddysgir o'r gwaith o gyflwyno'r canolfannau i ddatblygu'r ffordd y mae'n cynnwys rhanddeiliaid.

[6] Gweler Atodiad 1

- Er bod 'rhywle y gall pawb fynd iddo' yn bwysig iawn i'r rhan fwyaf o gymunedau, dylai'r prosiect ystyried sut y gallai pobl gyfrathrebu ac ymgynnull yn y dyfodol yn ogystal ag effaith cyfryngau cymdeithasol.

# Rhan Dau: Ymateb a chamau gweithredu'r Cyngor

34 Yn dilyn ein gwaith maes, cyflwynwyd ein canfyddiadau i uwch-swyddogion y Cyngor mewn gweithdy ym mis Chwefror 2019. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac, o ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy a rhagor o fyfyrio ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol dan themâu penodol. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei gynllun gweithredu, ac i ba raddau y mae'n mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn ein canfyddiadau. Bydd y Cyngor yn darparu diweddariad ar fwyafrif y meysydd ym mis Medi a mis Rhagfyr 2019.

Arddangosyn 2: Camau gweithredu'r Cyngor

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | Wrth adrodd canlyniadau, gallai'r Cyngor ddangos mewn modd mwy cynhwysfawr y manteision ariannol hirdymor y mae'r prosiect yn eu cyflawni trwy gyfrifo'r costau a osgowyd gan waith atal ac ymyrryd yn gynnar. | Ymchwilio i'r defnydd o'r teclyn Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer gweithgareddau Teuluoedd yn Gyntaf a ariennir, ar y rhaglen cymorth i deuluoedd lawn.<br><br>O blith cyfres o declynnau, nodi'r dull mwyaf priodol o fesur Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ar gyfer gwaith ataliol. |

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
| --- | --- | --- |
| **Hirdymor** | I liniaru risgiau ariannol posibl ynghylch cynaladwyedd hirdymor y gwaith, yn enwedig o ystyried y ddibyniaeth ar gyllid grant, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall sicrhau gwydnwch hirdymor y model. | Nodi'r camau lliniaru i'r risgiau ariannol trwy greu cynllun cadarn ar gyfer cyllid grant yn y tymor canolig trwy ystyried ad-drefnu'r gwasanaethau craidd o gwmpas y model hwn i sicrhau cynaladwyedd trwy barhau i weithio mewn partneriaeth.<br><br>Proses hyblygrwydd cyllid:<br>• Deall yr anghenion ym mhob un o'r pum ardal yng Nghonwy<br>• Deall yr hyn sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion yn yr ardaloedd a nodi unrhyw fylchau<br>• Troi sylw'r ddarpariaeth (trwy grantiau neu gyllid craidd) i ddiwallu'r anghenion |

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
|---|---|---|
| **Atal** | O ystyried manteision trawsbynciol gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall ganolbwyntio cyllidebau a buddsoddiadau yn y dyfodol ar raglenni ataliol. | Mae'r Cyngor yn cadw at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac felly'r pum ffordd o weithio, sy'n cynnwys ataliaeth. Rhaid i'r holl adroddiadau i ddemocratiaeth fanylu eu cyfranogiad i'r pum ffordd o weithio (fel y'i gofynnir yn y blaen adroddiad). Mae'r blaenoriaethau corfforaethol hefyd yn canolbwyntio ar yr hirdymor ac yn cynnwys camau gweithredu ataliol ar draws pob un o'r wyth canlyniad dinesydd.<br><br>Mae portffolio gwydnwch ac adnoddau newydd o brosiectau a rhaglenni wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cynnwys y gwaith craffu ar y prosiectau a rhaglenni, dadansoddiad ohonynt, a phwysoli eu potensial a'r manteision a sicrhawyd. Un o'r meini prawf pwysoli drafft yw'r cyfraniad at yr agenda ataliol. |
| **Atal** | Dylai'r Cyngor ystyried modelu ymhellach effaith gwaith atal o ran costau. | (Fel yr uchod)<br>Ymchwilio i'r defnydd o'r teclyn Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer gweithgareddau Teuluoedd yn Gyntaf a ariennir, ar y rhaglen cymorth i deuluoedd lawn.<br><br>O blith cyfres o declynnau, nodi'r dull mwyaf priodol o fesur Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ar gyfer gwaith ataliol. |

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
|---|---|---|
| **Atal** | Dylai'r Cyngor ystyried ymhellach sut y gall ddysgu o ddull y prosiect o atal ac ymyrryd yn gynnar a symud ei adnoddau at waith atal ar draws y Cyngor yn ei gyfanrwydd. | Gweithredu'r strategaeth werthuso a ddatblygwyd ar gyfer gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar gofal cymdeithasol. Rhannu canlyniadau'r gwerthusiad ledled y gorfforaeth.<br><br>Bydd pob rhaglen a phrosiect yn dilyn fframwaith llywodraethu'r prosiect a rhaglenni, a fydd yn cynnwys cofnod o'r manteision a sicrhawyd a'r gwersi a ddysgwyd. Caiff arferion da a gwersi eu rhannu gyda chydweithwyr ar fforwm y rhaglenni a phrosiectau. |
| **Integreiddio** | Dylai'r Cyngor ystyried sut i ddatblygu dysgu ynglŷn â'r manteision a heriau gweithio mewn ffordd fwy integredig a sut y gall gwreiddio'r ymagwedd hon yn gorfforaethol. | Rhennir y Cynllun Sicrhau Manteision a'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect trwy Fframwaith Rheoli'r Prosiect.<br>Rhoi siarter y tîm uwch-reolwyr ar waith, sef cytundeb rhwng y penaethiaid gwasanaeth i gydweithio'n fwy ar draws yr adrannau. |
| **Integreiddio** | Gellid cryfhau'r trefniadau llywodraethu – nid yw'n glir sut y byddid yn tynnu sylw at hyn pe bai'r prosiect yn methu. | Cadarnhau'r trefniadau llywodraethu parhaus, unwaith y mae'r newid/prosiect wedi dod yn 'fusnes fel arfer'.<br>• Diweddaru'r asesiad o anghenion y boblogaeth bob dwy flynedd<br>• Nodi meysydd newydd o angen a throi sylw'r ddarpariaeth i fynd i'r afael â'r anghenion hyn<br>• Cryfhau rôl y fforymau ardal (aelodau etholedig) a'r pwyllgorau craffu, Bwrdd Gwasanaethau Integredig Ardal (amlasiantaeth) |

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Cam ymateb |
|---|---|---|
| **Integreiddio** | Er ei fod yn gweithio i gyrraedd teuluoedd sy'n agored iawn i niwed, nid yw'n glir sut bydd y Cyngor yn barnu llwyddiant o ran nifer y bobl hyn sy'n manteisio ar y gwasanaeth. | Datblygu rhwydweithiau ymhellach gyda gwasanaethau cyffredinol eraill megis ymweliadau iechyd, bydwreigiaeth gymunedol ac ysgolion i nodi a thargedu teuluoedd sy'n agored i niwed. |
| **Cydweithio** | Dylai'r Cyngor barhau i werthuso ei ddull o gydweithio a dysgu gwersi ohono, a dylai ystyried p'un a yw'n rhannu perchnogaeth ar y prosiect a'i berfformiad â phartneriaid ai peidio. | Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y prosiect wrthi'n cael eu hailystyried a byddant yn ffurfio rhan o raglen ehangach o waith i'w chyflwyno – fel rhan o agenda Gofal yn Agosach i Gartref Llywodraeth Cymru. |
| **Cydweithio** | Gellid cryfhau cysylltiadau'r prosiect â Gwynedd a Sir Ddinbych ymhellach. | Parhau i ddatblygu perthnasau â siroedd cyfagos i sicrhau cysondeb a thegwch y gwasanaethau i breswylwyr Conwy. |
| **Cyfranogiad** | Mae'r Cyngor yn cymryd camau i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd ond mae angen gwaith pellach i gynnwys rhai o'r grwpiau mwy heriol. | Fel rhan o'r broses o nodi anghenion y pum ardal, datblygir cynllun ymgysylltu cynhwysfawr. |
| **Cyfranogiad** | Dylai'r Cyngor barhau i ddefnyddio'r hyn a ddysgir o'r gwaith o gyflwyno'r canolfannau i ddatblygu'r ffordd y mae'n cynnwys rhanddeiliaid. | Defnyddio'r rhwydwaith ymgysylltu corfforaethol i rannu'r gwersi a ddysgwyd ac ymarfer da. |
| **Cyfranogiad** | Er bod 'rhywle y gall pawb fynd iddo' yn bwysig iawn i'r rhan fwyaf o gymunedau, dylai'r prosiect ystyried sut y gallai pobl gyfrathrebu ac ymgynnull yn y dyfodol yn ogystal ag effaith cyfryngau cymdeithasol. | Mae model ehangach cymorth i deuluoedd yn cynnwys gwaith allgymorth ac ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi pan fo'n briodol.<br>Cam gweithredu: Timau cymorth i deuluoedd i barhau i ddatblygu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.<br>Gweithio gyda'r tîm cyfathrebu corfforaethol i ddatblygu'r strategaeth hon ymhellach. |

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl isod yn gosod 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u nodi ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i lywio ein hasesiadau o'r raddfa y gallai cyrff fod yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i greu casgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o'r graddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd hirdymor o weithio yn ei chyfanrwydd?** |
| --- |
| • Mae dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf<br>• Mae'r corff wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor<br>• Mae wedi dylunio'r cam i ddwyn manteision byrdymor neu dymor canolig, sy'n cydbwyso â'r effaith dros yr hirdymor (o fewn cyd-destun y prosiect)<br>• Mae wedi dylunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o'r anghenion a phwysau presennol, a'r rheiny yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol<br>• O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a chyfleoedd presennol a'r rheiny yn y dyfodol<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau manteision hirdymor yn ogystal â byrdymor<br>• Canolbwyntir ar gyflawni canlyniadau, wrth nodi cerrig milltir / camau cynnydd lle bydd canlyniadau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor<br>• Mae'n agored i ffyrdd newydd o gyflawni pethau a allai helpu i ddwyn manteision yn yr hirdymor<br>• Mae'n rhoi gwerth ar ddeallusrwydd ac yn mabwysiadu dulliau o weithio ar sail tystiolaeth |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd ataliol o weithio yn ei chyfanrwydd?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall gwreiddiau problemau fel bod modd trechu cylchoedd negyddol a heriau rhyng-genedlaethol<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt system gyfan, gan gydnabod a rhoi gwerth ar y manteision hirdymor y gallant eu cyflawni i bobl ac i lefydd<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i weithredoedd ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a gwell defnydd o adnoddau dros yr hirdymor, hyd yn oed pan allai hyn gyfyngu ar y gallu i fodloni rhywfaint o anghenion byrdymor<br>• Mae trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth gweithredoedd ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau i geisio gwella canlyniadau a'r defnydd o adnoddau |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithio mewn ffordd 'integredig'? |
|---|
| • Unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Mae hyn yn digwydd yn eu gwaith â chyrff cyhoeddus eraill hefyd<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y ddibyniaeth ar draws y sefydliad ar gyflawni'r uchelgais a'r amcanion<br>• Mae diwylliant agored lle caiff gwybodaeth ei rhannu<br>• Mae dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae amcanion llesiant a chamau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus<br>• Mae unigolion yn rhagweithiol wrth weithio ar draws ffiniau'r sefydliad i gynyddu eu cyfraniad i'r eithaf ar draws y nodau llesiant ac i leihau effeithiau negyddol<br>• Mae dulliau llywodraethu, strwythurau a phrosesau, yn ogystal ag ymddygiad, yn cefnogi hyn |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar lefydd, cymunedau a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion ei bartneriaid yn ogystal â'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i sbarduno gweithgareddau ar y cyd<br>• Mae gan y corff gydberthnasau cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar y cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio ar y cyd, lle bo'n briodol |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy y mae angen eu cynnwys a pham<br>• Myfyrio ar ba mor dda y caiff yr anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r bobl hynny eu deall ar hyn o bryd<br>• Gweithio'n gydweithredol a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau<br>• Sicrhau y caiff amrywiaeth lawn y rhanddeiliaid ei chynrychioli a bod modd iddynt gymryd rhan<br>• Bod â pherthnasau aeddfed a ffyddlon â'i randdeiliaid, lle mae deialog barhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw<br>• Sicrhau bod y rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol, a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru